# Cyfrifon banc – Sefydliadau

Rhan o'n broses wirio o ran twyll a llywodraethu yw gofyn ichi yn y porth nodi manylion y cyfrif banc yr hoffech dderbyn eich grant ynddo a rhoi tystiolaeth am y cyfrif.

Rhaid cyflwyno'r wybodaeth cyn ichi allu cyflwyno cais.

Rhaid uwchlwytho'r dystiolaeth ar adeg nodi manylion y cyfrif banc. Felly rhaid cael y ddogfennaeth yn barod. Rhaid hefyd i'r dystiolaeth gyfateb â manylion y cyfrif banc.

Gallwch ychwanegu sawl cyfrif banc at eich proffil ar-lein. Ond rhaid inni weld tystiolaeth am bob un.

Ar ôl ychwanegu cyfrif at eich proffil, gallwch ei ddewis wedyn wrth gyflwyno cais.

Cysylltwch â ni: buddsoddiacariannu@celf.cymru os hoffech ddileu neu ddiweddaru tystiolaeth neu ychwanegu ati. Peidiwch â chreu sawl cofnod gyda'r un manylion.

Ni allwn eich talu nes inni ddilysu eich manylion banc ond gallwch chi gyflwyno eich cais cyn i hynny ddigwydd.

Inni allu dilysu eich tystiolaeth, rhaid iddi gynnwys:

- prawf bod y cyfrif yn enw eich sefydliad neu enw cyfreithiol eich sefydliad
- prawf bod o leiaf dau berson yn gallu cael mynediad i'r cyfrif
- rhif y cyfrif
- y cod didoli.

Rhaid i'r dystiolaeth fod:

- yn y 6 mis diwethaf o ddyddiad y gwiriad
- yn dystiolaeth swyddogol gan y banc; rhaid darparu o bosibl sawl dogfen inni allu gweld y cysylltiad yn glir rhwng y dystiolaeth a'r cyfrif. Er enghraifft:
    - llythyr neu e-bost sy'n amlwg yn dod o'r banc i gadarnhau'r wybodaeth
    - sgrinluniau o'r llofnodwyr wedi mewngofnodi i fancio ar-lein ac sy'n dangos eu henwau gyda gwybodaeth cyfrif banc y sefydliad gyda'r dyddiad i'w weld
    - ffotograffau o bob cerdyn banc ar gyfer y cyfrif sy'n dangos enw pob llofnodwr, enw'r cyfrif, y rhif a'r cod didoli. Nid yw rhai cardiau banc yn dangos yr holl wybodaeth, felly mae'n bosibl y bydd rhaid rhoi gwybodaeth ychwanegol i gysylltu eich sefydliad â'r cyfrif, er enghraifft datganiad banc.

Os oes unrhyw broblemau wrth ddilysu eich cyfrif, cysylltwn â chi'n syth. Efallai y gofynnwn am ragor o dystiolaeth.

Wrth ymgeisio am grant newydd yn ein porth, mae unrhyw gyfrif a ddilyswyd yn aros felly am 2 flynedd. Os hoffech ailddefnyddio'r cyfrif ar ôl 2 flynedd, rhaid ailgyflwyno tystiolaeth cyn dechrau ymgeisio.

Cofiwch:

- Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithredu gyda llyfr pas yn unig.

- Ni fydd rhaid i gyrff statudol (megis awdurdodau lleol, cynghorau tref, byrddau iechyd, na phrifysgolion) ddarparu tystiolaeth am gyfrifon banc. Ond rhaid i'r cyfrif fod yn enw'r sefydliad neu'r awdurdod lleol.

Cysylltwch â ni: buddsoddiacariannu@celf.cymru gydag unrhyw gwestiynau.